

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym :
07903328655 e-bost : johnmaclennan9@icloud.com

MUNUDAU CYFARFOD DIWETHAF Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR FAI 4ydd, 2016, YN NEUADD Y PENTREF, BETWS YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd,, y Cynghorydd Tudur W. Jones; yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams, a'r Cynghorwyr D.Rhys Davies; Eifion Evans; D.Gwyn Jones; Bryn Jones; Ifor O. Jones; Gwyndaf O. Roberts; Goronwy R.Williams. a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
3. YMDDIHEURIADAU - Y Cynghorwyr Goronwy Davies; Irwedd Griffiths a John D.Roberts.
4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Datganodd y Cynghorydd Gwyndaf O. Roberts ddiddordeb yng nghais cynllunio 0/42688. Mae'r sawl sy'n gwneud y cais yn aelod teuluol.
5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Ebrill 4ydd, 2016, yn y Ganolfan Gymuned, Llanelian yn Rhos.
6. MATERION YN CODI
 - 8.15/14(iii) Yr arwydd uwchben Ysbyty Aberegbe. NODWYD nad oedd yr arwydd byth wedi ei atgyweirio..
 - 9.15/14(i) Cwyn ynglŷn â'r llwybr cyhoeddus o Dŷ'n Coed, Llanelian, i Feifod. Mae GF24001 yn cyfeirio.
 - 9.15/14(vi) Cwyn ynglŷn â llwybr troed wedi ei flocio wrth Tan Llan.
 - 9.15/14(ii) Cwyn bod Ffromlys Chwarennog (Himalayan Balsam) wedi ei weld yn yr afon yn Rhyd-y-Foel, a hefyd fod yna Lysiau'r Dial (Japanese Knotwedd) yno. Mae GF24001 yn cyfeirio.
 - 9.15/14(iv) Cwyn am ddiffyg arwyddion cyfyngu ar gŵn ar giât y cae chwarae ym Metws yn Rhos a Llanelian yn Rhos. Mae cwyn GF24001 yn cyfeirio.

11.15/14(i) Cwyn ynglŷn â'r mat yn y lle chwarae yn Llanelian, ei fod yn llithrig a pheryglus. Mae cwyn GF24001 yn cyfeirio.

1.16/14(iii) Cwyn ynglŷn â pharcio peryglus wrth Ogwen Cottage, gyda'r ffordd yn gul ac yn agos i frig allt, gan ei gwneud yn beryglus i ddefnyddwyr ffordd eraill.

1.16/14(vii) Roedd y bont wrth y Lodge wedi ei thanseilio gan lifogydd. Mae GF24521 yn cyfeirio. NODWYD bod y cerrig copa ar y bont wedi eu hatgyweirio.

1.16/14(iv) Cwyn am dyllau ffordd wrth Gae Borth. Mae GF24521 yn cyfeirio. Dywedwyd hefyd fod arllwys sbwriel yn digwydd yn yr un ardal.

3.16/15(i) Dywedodd y Cynghorydd Sir, Ifor Lloyd, ei fod wedi gofyn am bolisiâu argyfwng ynglŷn â'r clefyd traed a'r genau. Dywedodd fod yna edrych ar y polisiâu ar hyn o bryd.

NODWYD GYDA SIOM UNWAITH ETO na fu delio gydag unrhyw un o'r cwynion uchod. PENDERFYNWYD y bydd y materion yn cael eu dwyn i sylw'r Swyddogion yn yr Archwiliad Ward.

7. GOHEBIAETH -

5.16/7(i) PENDERFYNWYD NODI cyhoeddiad gan y Rheolydd Pensiynau ynglŷn â chofrestru gweithwyr mewn cynllun pensiwn. Dywedodd y Clerc fod hyn wedi ei wneud, ac nad oedd ef yn gymwys yn ôl y cynllun.

5.16/7(ii) PENDERFYNWYD ADNEWYDDU'r polisi yswiriant gyda Zurich ar gost o £346.25.

5.16/7(iii) PENDERFYNWYD NODI llythyr gan HSBC ynglŷn â Bancio Busnes.

8. CYLLID - PENDERFYNWYD NODI AC ARWYDDO'r adroddiadau Banc am y cyfnod yn gorffen Ebrill 21ain, 2016, o dan eitem 5.16/8.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU pob eitem a restrir o dan 5.16/10(i)(ii)(iii)

ac i gynnwys y taliadau canlynol

5.16/10(iv) Rhentu Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.....£
72.00

5.16/10(v) Cwmni Yswiriant Zurich.....
£ 346.25

11. GRANTIAU - Ni dderbyniwyd yr un.

12. MATERIION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYD IFOR LLOYD

Dywedodd y Cynghorydd Lloyd y byddai pob mater na ddeliwyd â hwy'n cael eu cynnwys yn yr Archwiliad Ward, onibai bod rhai wedi eu setlo'n y cyfamser.

13. MATERIION CYNULLIAD CYMRU --Dim.

14. MATERIION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED - Dim byd ond na ddeliwyd gyda phob mater o dan 'materion yn codi'.

15. UNRHYW FATER ARALL -

12.15/15(i) Y cytundeb ynglŷn ag arian gan KP SPV 40, a sefydlu Pwyllgor i ddelio â hynny. PENDERFYNWYD GOHIRIO HYD NES Y TELID YR ARIAN.

16. CYNLLUNIO -

5.16/16(i) 0/42653 Estyniad arfaethedig i annedd sy'n bodoli yn Nant Ucha, Rhyd-y-Foel. PENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU oherwydd maint a graddfa'r cais , ac na fyddai'n cydweddu â'r ardal dan sylw.

5.16/16(ii) 0/42642 Estyniad defnyddiol arfaethedig yn Nhyddyn y Fron, Betws yn Rhos. PENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU oherwydd bod y manylion ar gael yn annigonol

5.16/16(iii) 0/42689 Adeilad da byw amaethyddol un llawr yn Fferm Bryn-y-Maen, Bryn-y-Maen. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

5.16/16(vi) 0/42688 Adeiladu ffordd goedwigaeth yng Ngwyndy Uchaf, Betws yn Rhos. Datganodd y Cynghorydd Gwyndaf O.Roberts ddiddordeb yn yr eitem hon, ac fe adawodd o'r cyfarfod. Mae'r sawl sy'n gwneud y cais yn aelod teuluol.

5.16/16(iv) 0/42704 Cael gwared o amod 3 (Troi ysgubor, coetsiws, ac ehangiad yn lle preswyl gwyliau hunan-ddarpar, a swyddfa stiwdio i ganiatáu defnydd preswyl) yn Fferm Peniarth Bach, Betws yn Rhos. PENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU.

5.16/16(v) 0/42705 Cael gwared o amod 3 (Troi ehangiad yn uned breswyl un ystafell wely ar gyfer twristiaeth) yn Fferm Peniarth Bach. PENDERFYNWYD GWRTHWYNEBU.

Deliwyd â'r ddau gais uchod ar wahân, ond mae'r gwrthwynebiadau canlynol yn berthnasol i'r ddau gais.

- Mae cynaliadwyaeth y cais yn yr ardal yn ddadleuol.
- Dylid gwneud astudiaeth ymarferoldeb i brofi cais y sawl sy'n gwneud y cais.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 9.15y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....
.....